# Pwyllgor y TY

## HS(2) 06-05 (Cofnodion)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Mehefin 2005 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd |

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Peter Black, AC Democrat Rhyddfrydol

William Graham, AC Ceidwadwr

Janice Gregory, AC Llafur

Jane Hutt, AC Llafur

Alun Ffred Jones, AC Plaid Cymru

Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau

Mike Snook, Pennaeth Adnoddau Dynol

Catherine Morris, Swyddog Seneddol Gweithredol

Gareth Brydon, Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau:**

Lorraine Barrett, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

| | |
|---|---|
| | Croesawodd y Cadeirydd Alun Ffred Jones i'r cyfarfod. |
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi** |
| | Nododd Aelodau bod yn rhaid cyhoeddi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai erbyn 30 Mehefin 2005. Fodd bynnag, cytunwyd y gellir cyhoeddi'r cofnodion yn gynharach os ydynt ar gael i'w cyhoeddi. |
| **1.1** | **Camau sy'n deillio o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-06-05(p1)** |
| | **Dirprwyaethau mewn cysylltiad â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**<br><br>Nododd Gwyn Griffiths fod y Cynulliad wedi cymeradwyo pob un o'r dirprwyaethau.<br><br>**Newidiadau i Ddyraniad TGCh Aelodau**<br><br>Cytunodd Gwen Parry i wneud adroddiad llawn mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adeilad Newydd**<br><br>Nododd Dianne Bevan fod y broblem dwr ar ochr adeilad y Pierhead o'r safle wedi'i nodi. |

| | |
|---|---|
| | Trefnwyd bod Aelodau Pwyllgor y Ty yn ymweld â'r Adeilad Newydd ar 6 Gorffennaf.<br><br>**Cynllun Cynhorthdal Teithio ar gyfer Ysgolion sy'n Mynychu Pwyllgorau Rhanbarthol**<br><br>Cytunodd Gwen Parry i ddosbarthu ffigurau ymweliadau ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru y tu allan i'r Pwyllgor. |
| **2** | **Eitemau i'w Trafod** |
| **2.1** | **Gwahaniad** |
| | Cafodd Pwyllgor y Ty y wybodaeth ddiweddaraf gan y Clerc ynglyn â'r gwahaniad rhwng cangen Gweithredol a changen Deddfwriaethol y Cynulliad. Nododd fod y Papur Gwyn "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" wedi'i gyhoeddi ar 15 Mehefin. Cynigiodd y Papur Gwyn newid statws y Cynulliad drwy ddarparu ar gyfer Gweithrediaeth ar wahân a gwella ei bwerau deddfwriaethol. Cynigiwyd y dylai staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gael eu cyflogi gan y Cynulliad; dylai eu telerau a'u hamodau fod yn debyg yn gyffredinol i rai staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a dylent barhau o fewn Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Nid oedd y Papur Gwyn yn cynnig creu Comisiwn statudol i ddarparu'r adeilad, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol gan y Cynulliad, ond bydd angen corff o'r fath.<br><br>Roedd angen ymateb i'r Papur Gwyn erbyn 16 Medi. Caiff Pwyllgor ei sefydlu, gyda'r Llywydd yn cadeirio, i baratoi ateb y Cynulliad. Bydd yn cymryd tystiolaeth gan Gadeiryddion y Pwyllgor Busnes, Pwyllgor y Ty a'r Pwyllgor Deddfau, yn ogystal â chan y Panel Cadeiryddion.<br><br>I baratoi ar gyfer y gwahaniad gweinyddol, sefydlwyd pedwar bwrdd prosiectau gan y Clerc o dan ei bwerau dirprwyedig o fewn Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i ystyried materion yn ymwneud â'r gwahaniad gweinyddol mewn cysylltiad ag adnoddau, materion gweithdrefnol, gwasanaethau cymorth a chyngor cyfreithiol.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at baratoi Rheolau Sefydlog newydd. Mynegodd y Llywydd ei farn y dylai'r Cynulliad berchen ar ei Reolau Sefydlog ei hun. |
| **2.2** | **Cyllideb 2006/07 HC(2)-06-05(p2)** |

| | |
|---|---|
| | Gwahoddodd y Cadeirydd Bwyllgor y Ty i ystyried ei gyllideb ddrafft ar gyfer 2006 – 07 a'i gyllidebau dangosol ar gyfer 2007 – 2008 a 2008 – 2009.<br><br>Nododd Aelodau fod llawer o waith wedi'i wneud o ran paratoi'r gyllideb er nad oes modd asesu goblygiadau'r diwygiad a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn yn llawn ar hyn o bryd, yn arbennig effaith y gwahaniad gweinyddol a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2006. Bu Pwyllgor y Ty yn trafod y defnydd a wneir o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad a nododd y caiff y ffigur uchel sy'n bodoli ar hyn o bryd ei leihau'n sylweddol ar ôl cwblhau'r rhaglenni presennol y cytunwyd arnynt. Hysbysodd y Llywydd y Pwyllgor o'r rhesymau hanesyddol dros hyn, er y byddai'r sefyllfa'n newid yn y dyfodol.<br><br>Trafododd Pwyllgor y Ty yr amserlen ar gyfer cymeradwyo'r gyllideb ddrafft. Nodwyd yn unol â'r Rheolau Sefydlog y byddai'r Cadeirydd yn trafod y gyllideb ddrafft gyda'r Gweinidog Cyllid. Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y gyllideb ddrafft arfaethedig, a amlinellwyd yn yr argymhellion ym mharagraff 29 y papur, yn amodol ar ystyriaeth derfynol yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf lle y gellir ystyried unrhyw sylwadau manwl gan Aelodau a lle y bydd adroddiad o gyfarfod y Cadeiryddyddion gyda'r Gweinidog Cyllid ar gael. |
| **2.3** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adeilad Newydd HC(2)-06-05(p3)** |
| | Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Ty am gynnydd a materion cyfredol yn ymwneud ag adeiladu, gosod dodrefn ac offer a pholisïau gweithredol Adeilad Newydd y Cynulliad.<br><br>Nododd Aelodau y canlynol neu cytunwyd arnynt:<br><br>• trefnwyd ymweliad â'r adeilad ar gyfer dydd Mercher, 6 Gorffennaf. Bydd Aelodau'n penderfynu'r trefniadau mynediad ar ôl yr ymweliad;<br>• yr enwau a neilltuir i fannau yn y Senedd, a ddefnyddir yn y dyfodol;<br>• trefnwyd cwblhau'r gwaith terfynol o dan gontract yr adeilad ar gyfer 30 Awst. Fodd bynnag, byddai rhywfaint o lithriant gydag agweddau ar y gwaith adeiladu yn achosi oedi o ran dechrau'r rhaglen gosod dodrefn ac offer. Cafodd y llithriant ei achosi gan gyfuniad o ffactorau yn cynnwys newidiadau i ofynion TGCh a dosbarthu offer yn hwyr i'r safle;<br>• roedd opsiynau ar gyfer cyfleusterau gofal plant yn y Bae yn cael eu hystyried a chaiff holiadur ei gyhoeddi cyn hir;<br>• gofynnodd Aelod a fyddai modd cael sicrwydd gan y contractwr fod yr adeilad Newydd yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu mewn cysylltiad â'r mynediad gwasanaeth ar y llawr cyntaf, gan mai'r unig ffordd o'i gyrraedd yw trwy lifft;<br>• yn ogystal â'r mynediad cyswllt, dylid ystyried mynediad allanol ar gyfer Aelodau hefyd drwy ddrws cyfleus yn Swyddfeydd y Cynulliad; |

| | |
|---|---|
| | • y dymuniad i gadw drysau tân ar agor ond gyda dyfeisiau cau awtomatig yn achos tân.<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty i dderbyn argymhellion y papur ar wahân i'r mater yn ymwneud â mynediad, a gaiff ei ddatrys ar ôl yr ymweliad safle ar 6 Gorffennaf.<br><br>Gofynnodd William Graham i'r cofnodion nodi na ofynnwyd i'w Blaid enwebu cynrychiolydd ar Grwp Llywio Polisi'r Gweinidog.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan** |
| **2.4** | **Trefniadau Ymweld â'r Senedd HC(2)-06-05(p4)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried argymhellion ar gyfer defnyddio mannau cyhoeddus a phedwar opsiwn ar gyfer trefniadau oriau agor y Senedd.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y papur ond dewiswyd opsiwn 4 o ran yr oriau agor, hy:<br><br>Ymestyn yr oriau agor i saith diwrnod yr wythnos gyda gwasanaeth ychwanegol yn gynnar yn y noswaith -<br><br>Dydd Llun a dydd Gwener 08:00 tan 18:00<br><br>Dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau 08:00 tan 20:00<br><br>Ar agor yn ystod y penwythnosau a Gwyliau Banc/Braint o 10:30 tan 16:30 (mis Hydref tan y Pasg) ac o 10:30 tan 18:00 (Pasg tan fis Medi).<br><br>Caiff y trefniadau ar gyfer mynedfa gyhoeddus eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2005. |
| **2.5** | **Seremoni Agoriadol y Senedd HC(2)-06-05(p5)** |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynwyd amserlen amlinellol i Bwyllgor y Ty o'r digwyddiadau a'r costau ar gyfer seremoni agor y Senedd.<br><br>Ystyriodd Aelodau'r egwyddorion cyffredinol a oedd yn ategu'r trefniadau ar gyfer y diwrnod. Trafodwyd natur y seremoni a'i hamserlen digwyddiadau posibl. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd pwy ddylai gael gwahoddiad i'r seremoni agoriadol. Cytunwyd na ddylid gofyn i Aelodau enwebu unrhyw un o'u hetholaethau i fynychu. Gofynnwyd i Gwen Parry roi rhagor o wybodaeth ynglyn â seddi â blaenoriaeth yn yr Oriel a nifer y gwesteion tramor y mae'n bosibl y cânt eu gwahodd.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, cymeradwyodd Pwyllgor y Ty yr argymhellion a chytunwyd ystyried trefnu dathliad addas i nodi'r diwrnod swyddogol cyntaf y caiff yr Adeilad Newydd ei ddefnyddio.<br><br>**Camau i'w cymryd: Gwen Parry** |
| **2.6** | **Gwasanaeth Cyfieithu ar gyfer Aelodau Unigol HC(2)-06-05(p6)** |
| | Cyflwynwyd cynnig i Bwyllgor y Ty gynnal cynllun peilot i ganiatáu i Aelodau unigol o'r Cynulliad ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu allanol. Cynigiwyd bod uchafswm o £400 yn cael ei neilltuo ar gyfer pob Aelod tuag at gost y gwasanaethau yn ystod cyfnod y cynllun peilot, sef chwe mis.<br><br>Cytunodd Aelodau y dylid datblygu'r cynllun peilot. |
| **2.7** | **Safleoedd ar wahân ar gyfer y Rhyngrwyd a'r Fewnrwyd HC(2)-06-05(p7)** |
| | Cyflwynwyd cynnig i Aelodau a baratowyd gan Merlin ar gyfer Cam 1 prosiect ailddatblygu rhyngrwyd y Cynulliad. Nododd Gwen Parry fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud yn gyflym i ddatblygu ei safle rhyngrwyd ei hun i ddigwydd ar yr un pryd ag uno'r CCNCau ym mis Ebrill 2006.<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty i barhau ag ymarfer gwmpasu am gyfanswm cost o £32k yn ogystal â threuliau. Cytunodd y bydd yn rhaid i'r safle newydd gydymffurfio â thelerau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Cytunodd Aelodau hefyd y dylid rhoi cyflwyniad i'r is-grwp TGCh ynglyn â Cham 1 y prosiect ailddatblygu, a dylid gwahodd Aelodau Pwyllgor y Ty iddo.<br><br>**Camau i'w cymryd: Gwen Parry** |

| | |
|---|---|
| **2.8** | **Mân Waith Newydd HC(2)-06-05(p8)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty nodi cynnydd prosiectau presennol a chymeradwyo prosiectau ychwanegol arfaethedig.<br><br>Nododd Aelodau'r statws presennol o ran rhoi to a system gwresogi ac oeri newydd yn adeilad y Pierhead.<br><br>Cytunodd Aelodau y dylent aros am amcangyfrif manylach cyn y tendr a manyleb manwl ar gyfer addasu ac ehangu Ystafell De'r Aelodau i ddarparu Ystafell Fwyta/Bwyty ar gyfer yr Aelodau. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Glerc ymchwilio i'r posibilrwydd y bydd y sector preifat yn cynorthwyo â'r gost ailddatblygu.<br><br>Ystyriodd Pwyllgor y Ty ddau opsiwn i atgyweirio'r awyrell fwg lwfrog yn nho fflat yr atriwm. Cytunodd yr Aelodau ar y syniad o osod awyrell fwg lwfrog (paragraff 14), a gaiff ei selio'n ddigonol yn erbyn treiddiad dwr pan fydd ar gau. Nodwyd mai £15,000 oedd yr amcangyfrif o'r gyllideb.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd tendrau cystadleuol ar gyfer prosiect dadhaenu'r atriwm hefyd.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan** |
| **2.9** | **Prosiect Busnes Pwyllgorau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-06-05 (p9)** |
| | Hysbysodd Karin Phillips Bwyllgor y Ty o gefndir datblygiad y prosiect, gan ymchwilio i'r ddarpariaeth o System Rheoli Busnes Pwyllgorau.<br><br>Cynhelir cyflwyniad gan ddarpar gontractwyr ar 11 Gorffennaf. Gwahoddir Aelodau i fynychu a chytunwyd aros tan y cyflwyniad cyn ystyried y prosiect ymhellach. |
| **2.10** | **Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo HC(2)-06-05(p10)** |

Nododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid rhoi terfyn ar y broses bresennol ar gyfer aildendro'r contract arlwyo ai ail-redeg. Eglurodd fod pedwar tendrwr wedi tynnu yn ôl o'r ymarfer. Mae'n bosibl mae ansicrwydd o ran gofynion y gwasanaeth mewn cysylltiad â'r Adeilad Newydd oedd un o'r prif ffactorau a oedd yn gyfrifol am eu penderfyniad i dynnu yn ôl. Byddai'r ymarfer tendro newydd yn caniatáu i oblygiadau'r Senedd gael eu hystyried yn llawnach.

Cynghorodd y Dirprwy Glerc y dylai'r weithdrefn dendro wneud darpariaeth ar gyfer rhoi terfyn ar yr ymarfer presennol, er nad oedd aildendro yn rhoi sicrwydd y byddai mwy o gynigwyr yn gwneud cais yn y dyfodol.

Cytunodd Pwyllgor y Ty i derfynu'r broses dendro presennol a'i hailddechrau pan fydd ganddo syniad cliriach o 'r manylebau a'r gofynion ar gyfer yr Adeilad Newydd ac unrhyw newidiadau canlyniadol yn yr adeilad presennol. Yn y cyfamser, caiff y contract arlwyo presennol ei ymestyn. Cadarnhaodd Gwyn Griffiths fod hyn yn annerbyniol o safbwynt cyfreithiol.

Wrth gyfeirio at baragraff 11 y cofnodion, nododd Nerys Evans nad oes tâl gweini'n bodoli bellach a bod y drefn o ran gwerthu neu ddychwelyd poteli o win heb eu hagor yn bodoli o hyd.

Cadarnhaodd Wayne Cowley fod trefniadau ar gyfer gwneud didyniadau elusennol o'r gyflogres ar gael eisoes. Gofynnodd y Cadeirydd i Wayne Cowley ddosbarthu nodyn i atgoffa'r Aelodau.

Mynegodd Janice Gregory bryder ynglyn â phryd o fwyd a oedd yn cynnwys pysgod a werthwyd i lysieuwr yn y bwyty. Cytunodd Aelodau y dylid trafod y mater gyda'r rheolwr arlwyo.

**Camau i'w cymryd: Nerys Evans/Wayne Cowley**

| | |
|---|---|
| **3** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **3.1** | **Adroddiad Cyllid yn adlewyrchu Addasiad i'r Cyfrifon Adnoddau HC(2)-06-05 (p11)** |
| | Nododd Pwyllgor y Ty y gwariant alldro ar gyfer 2004-2005 a'r sefyllfa Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn canlyniadol. |
| **3.2** | |
| | **Cyfarfod yr Is-grwp TGCh HC(2)-06-05(p12)** |
| | Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin. |
| **3.3** | **Cyfarfod y Grwp Cyswllt, Cyfarpar a Chyfleusterau HC(2)-06-05(p13)** |
| **3.4** | Cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin. |
| | **Papur ar Berfformiad yn erbyn Targedau HC(2)-06-4(p14)** |
| **3.5** | Nododd Pwyllgor y Ty y papur. Cynghorwyd yr Aelodau bod siart 2.8 yn dangos cynnydd sydyn yn llwyth gwaith TGCh, yn bennaf o ganlyniad i uwchraddio offer yr Aelodau. Cafwyd cynnydd graddol hefyd yn nifer y bobl a fu'n ymweld â chanolfan ymwelwyr y Cynulliad ym Mae Colwyn. |
| | **Adroddiad AD Misol HC(2)-06-05(p15)** |
| **3.6** | |
| | Nododd Pwyllgor y Ty yr adroddiad a'i fod yn cynnwys manylion am ethnigrwydd. |
| | **Adroddiad Cyllid Misol HC(2)-06-05(p16)** |
| **3.7** | Nododd Pwyllgor y Ty yr adroddiad. Nodwyd hefyd fod gwariant yn llawer agosach i'r proffil na'r blynyddoedd blaenorol. |
| | **Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-06-05(p17)** |
| **3.8** | Nododd yr Aelodau y papur. |

**Ceisiadau Rhyddid gwybodaeth HC(2)-06-05(p18)**

4 Nododd yr Aelodau y papur.

## 4.1 Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

**OAQ0005(HC)**

4.2 Nododd Aelodau fod yr ateb a gyflwynwyd ar 25 Mai wedi'i ddosbarthu iddynt.

**(WAQ43197)**

Nododd Aelodau fod yr ateb a gyflwynwyd ar 31 Mai wedi'i ddosbarthu iddynt.

5 -

## Unrhyw Fater Arall

**Gweithdrefnau Gwacáu Adeilad yn Achos Tân**

Nododd y Cadeirydd fod nifer o faterion wedi codi o ganlyniad i wacáu'r adeilad yn ddiweddar yn achos tân. Cytunodd Aelodau fod dryswch yn bodoli o hyd mewn cysylltiad â'r gweithdrefnau gwacáu adeilad yn achos tân ac ni rhoddwyd unrhyw gyfarwyddyd i ymwelwyr yn yr Ystafelloedd Pwyllgora. Cytunodd Pwyllgor y Ty y dylai Nerys Evans ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu cyhoeddiadau dros yr uwchseinydd.

Cytunodd Pwyllgor y Ty hefyd y dylai staff werthuso gweithdrefnau gwacáu adeilad yn achos tân yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'n bosibl drysu pobl yn ystod unrhyw achos dilynol o wacáu adeilad.

**Camau i'w cymryd: Nerys Evans**

**Cyhoeddiadau dros yr Uwchseinydd a Darllediadau Stiwdio**

Nododd y Llywydd fod cyhoeddiad diweddar dros yr uwchseinydd wedi amharu ar ddarllediad byw mewn stiwdio ar fore dydd Sul. Gofynnodd Pwyllgor y Ty i Nerys Evans ymchwilio i hyn a sicrhau na fydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd yn y dyfodol.

**Camau i'w cymryd: Nerys Evans**

**Contractau**

Gofynnodd y Cadeirydd i Nerys Evans gynhyrchu papur ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Ty ym mis Gorffennaf.

**Camau i'w cymryd: Nerys Evans**

**Canllawiau Teithiau Tramor Aelodau Cynulliad**

Dywedod y Cadeirydd y dylid diweddaru'r canllawiau sydd yn Atodiad 3 HC(2)-01-04(p7) ac y dylai gynnwys paragraff ychwanegol. Cytunodd Aelodau y dylid ychwanegu paragraff 27 ac y dylai gynnwys y geiriau:

> "27. Penderfynir ar unrhyw gwestiynau o ran dehongli'r canllawiau hyn yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 1.4.1 Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau, Lwfansau ac ati) 2005."

**System Dolen Sain y Siambr**

Nododd Janice Gregory fod Aelod wedi nodi nad oedd y system dolen sain yn y Siambr yn gweithio'n iawn. Gofynnwyd i Gwen Parry ymchwilio i hyn.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

**System Dymheru yn y Siambr**

Nododd Aelodau fod y system dymheru uwchben seddi 4,5 ac 16 yn rhy oer. Gofynnwyd i Nerys Evans ymchwilio i hyn.

**Camau i'w cymryd: Nerys Evans**

**Aelodau'r Cynulliad – Ymweld â Meddygon Teulu**

Holodd Aelodau ynglyn â'r trefniadau ar gyfer gweld meddyg oherwydd salwch tra'n aros yng Nghaerdydd. Dywedodd y Cadeirydd y cafwyd trafodaeth ar hyn rai blynyddoedd yn gynharach. Cytunodd Michael Snook i ymchwilio i'r mater.

**Camau i'w cymryd: Mike Snook**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 14 Gorffennaf 2005**

| | |
|---|---|
| | **Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty** |